Cael trafferth darllen y cylchlythyr yma? Darllenwch ef yn eich porwr.

bwletin gweinyddiaeth etholiadol

Rhifyn 204 (Cymru) – 24 Ionawr 2018

Seminar ar ddiwygio etholiadol ym maes llywodraeth leol

Ar 14 Chwefror, byddwn yn cynnal seminar ar ddiwygio etholiadol ym maes llywodraeth leol yng Nghymru. Y seminar hwn fydd y seminar cyntaf o gyfres o seminarau a gaiff eu hwyluso a'u cynnal gan y Comisiwn Etholiadol.

Caiff y seminar ei gadeirio gan Gomisiynydd Etholiadol, Cymru - Elan Closs Stephens, CBE.

Bydd Alun Davies AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, yn gwneud datganiad ar ddiwygio etholiadol ym maes llywodraeth leol yng Nghymru yn ystod yr wythnosau nesaf. Bydd y digwyddiad yn cynnig cyfle iddo amlinellu ei weledigaeth, gan gynnwys sut y cred y dylid cynnal etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.

Cynhelir y seminar yn Nhŷ Hywel ym Mae Caerdydd am 5:30. Darperir lluniaeth a bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael. Er mwyn cofrestru eich diddordeb, archebwch eich lle am ddim drwy Eventbrite.

Y wybodaeth ddiweddaraf o ran ymwybyddiaeth y cyhoedd: tudalen LinkedIn Gymraeg newydd

Yn ddiweddar, lansiwyd tudalen LinkedIn Gymraeg newydd gennym.

Fel sefydliad, rydym yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth dwyieithog yng Nghymru ac fel y cyfryw, rydym yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ar bob un o'n sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Gallwch hefyd ddilyn ein tudalen LinkedIn Saesneg.

Swyddi gwag yn y Comisiwn Etholiadol

Y Comisiwn Etholiadol

Cynnwys

Seminar ar ddiwygio etholiadol ym maes llywodraeth leol

Gwybodaeth am y digwyddiad a sut i gofrestru eich diddordeb mewn cymryd rhan.

Y wybodaeth ddiweddaraf o ran ymwybyddiaeth y cyhoedd: tudalen LinkedIn Gymraeg newydd

Gwybodaeth am ein tudalen LinkedIn Gymraeg newydd a dolen i'r dudalen honno.

Swyddi gwag yn y Comisiwn Etholiadol

Gwybodaeth am ddwy swydd wag a sut i wneud cais.

Rydym yn cyhoeddi bwletinau yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu gyda Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau'r gorffennol o Fwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael yma.

Gallwch hefyd danysgrifio i'n *cylchlythyr Gweinyddiaeth Etholiadol*.

Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau staff yn eich tîm. Bydd hyn yn helpu i ni sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.

Rydym yn recriwtio ar gyfer Pennaeth Canllawiau ar hyn o bryd, a fydd wedi'i leoli yn ein swyddfa yn Llundain. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau yw 23:45 ar 12 Chwefror 2018.

Rydym hefyd yn recriwtio ar gyfer Uwch Gynghorydd, Etholiadau ac Ymgyrchwyr (Yr Alban), a fydd wedi'i leoli yn ein swyddfa yng Nghaeredin. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau yw 23:45 ar 13 Chwefror 2018.

Os hoffech ragor o fanylion neu os hoffech wneud cais, ewch i dudalen recriwtio ein gwefan.

Er mwyn cael trafodaeth anffurfiol am swydd y Pennaeth Canllawiau, ffoniwch Ailsa Irvine ar 020 7271 0571. Ar gyfer swydd yr Uwch Gynghorydd, ffoniwch Andy O'Neill ar 0131 225 0201.

.....

Y Comisiwn Etholiadol
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

Textphone: 18001 020 7271 0500
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

www.comisiwnetholiadol.org.uk

© Y Comisiwn Etholiadol 2018